Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg bellach 2020-21

## Canllaw i Etholwyr

Ar gyfer dechrau ym mis Medi 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7373**
E-bost: **Lucy.Morgan@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg bellach 2020-21

## Canllaw i Etholwyr

Ar gyfer dechrau ym mis Medi 2020

**Awdur:**
Lucy Morgan

www.senedd.cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Ffioedd dysgu ........ 2**

**3. Cyllid i fyfyrwyr 16-18 oed ........ 3**

3.1. Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) ........ 3

3.2. Tocynnau bws rhatach ........ 3

4.1. Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLlC (AB))4

4.2. Tocynnau bws rhatach ........ 4

**5. Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn ........ 5**

**7. Cysylltiadau ac adnoddau ........ 7**

7.1. Manylion cyswllt y colegau ........ 7

# 1. Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am y mathau gwahanol o gymorth ariannol a allai fod ar gael i chi o fis Medi 2020 os ydych yn dilyn cwrs addysg bellach amser llawn neu ran-amser yng Nghymru, neu'n bwriadu gwneud hynny.

Ystyr arferol addysg bellach yw addysg i'r rhai rhwng 16 a 18 oed (er y gall oedolion ddilyn cyrsiau addysg bellach hefyd) a hynny mewn colegau lleol neu'r chweched dosbarth mewn ysgolion fel arfer.

Mae gan rai awdurdodau lleol gymysgedd o ysgolion â chweched dosbarth a cholegau lleol, a dim ond colegau sydd gan rai awdurdodau lleol. Mae addysg bellach yn wahanol i addysg uwch, ond mae'n bosibl y bydd eich coleg lleol yn cynnal cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch. Byddant yn egluro'r gwahaniaeth rhwng y ddau fath pan fyddwch yn edrych ar y cyrsiau.

Canllaw cyffredinol yw'r llyfryn hwn ac ni fydd yn disgrifio sefyllfa pawb. Dylech holi **Cyllid Myfyrwyr Cymru** a/neu'ch coleg neu'ch chweched dosbarth am gyngor ar eich sefyllfa bersonol.

*Ymwadiad: Gofynnir i Ymchwil y Senedd yn rheolaidd am gyllid myfyrwyr ac mae'r hysbysiad hwylus hwn yn nodi gwybodaeth am rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Cyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.*

# 2. Ffioedd dysgu

Os ydych rhwng 16 a 18 oed, nid oes rhaid i chi dalu ffioedd dysgu fel arfer.

Bydd rhai colegau lleol yn codi ffi gofrestru (tua £30-£50) i dalu am bethau fel eich cerdyn llyfrgell. Siaradwch â'r coleg os na allwch fforddio hyn.

Os ydych yn 19 oed neu'n hŷn, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu ffioedd dysgu. Dylech holi'r man lle rydych yn astudio, neu'n ystyried astudio, i weld beth yw'ch sefyllfa. Mae'n bosibl y gall gynnig ffioedd gostyngedig, neu ddim ffioedd o gwbl, i chi mewn rhai sefyllfaoedd, er enghraifft ar gyfer cwrs rhan-amser, os oes gennych chi neu'ch teulu incwm isel, os oes gennych anabledd neu os ydych yn cael budd-daliadau.

Os ydych yn cael budd-daliadau, mae'n bosibl y gallwch barhau i gael y rhain ac astudio. Mae'r rheolau yma yn gymhleth iawn, felly dylech holi'ch Canolfan Waith leol neu siarad â'r Adran Gwaith a Phensiynau a all roi cyngor i chi. Ar y dudalen hon, **mae rhestr o rifau llinell gymorth.**

# 3. Cyllid i fyfyrwyr 16-18 oed

## 3.1. Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Mae'r LCA i **fyfyrwyr amser llawn 16-18 oed sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach** ac yn **byw yng Nghymru**. **Er mwyn bod yn gymwys i gael LCA**, mae angen i chi fyw yng Nghymru ond nid oes angen i chi astudio yng Nghymru. Mae'n rhaid i'ch coleg neu'ch ysgol fod yn cymryd rhan yn y cynllun. ac mae'n rhaid i'r cwrs rydych yn ei ddilyn fod yn gymwys. Mae llawer o gyrsiau cymwys, gan gynnwys TGAU, Safon UG/Uwch, BTEC, NVQ a GNVQ. Gall eich coleg neu'ch chweched dosbarth ddweud wrthych a yw'ch cwrs yn un cymwys.

Mae gofynion hefyd o ran cenedligrwydd ond, os ydych yn ddinesydd y DU sy'n byw yng Nghymru, dylech fod yn gymwys. Gallai dinasyddion nad ydynt o'r DU fod yn gymwys hefyd. Dylech holi Cyllid Myfyrwyr Cymru, eich coleg neu'ch chweched dosbarth os nad ydych yn siŵr.

Os ydych yn bodloni'r holl reolau, mae'n bosibl y cewch hyd at £30 yr wythnos a gaiff ei dalu bob pythefnos, ond mae hyn yn dibynnu ar incwm eich aelwyd. Mae'n rhaid i incwm eich aelwyd fod yn is na lefel benodol i chi gael yr LCA.

Er mwyn cael LCA, mae'n rhaid i incwm eich aelwyd fod yn llai nag £20,817 os mai chi yw'r **unig berson ifanc**, neu'n **llai na £23,077 os oes mwy o bobl ifanc yn byw gyda chi.** Os yw incwm eich aelwyd yn uwch na hyn, ni chewch LCA fel arfer.

**Gellir cysylltu â Cyllid Myfyrwyr Cymru** i gael gwybodaeth am LCA drwy e-bost **(emawales@slc.co.uk)** a thros y ffôn o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9:00am a 5:30pm ar 0300 200 4050.

## 3.2. Tocynnau bws rhatach

Gallwch wneud cais am mytravelpass sy'n gwneud **tocynnau bws yn rhatach i bobl 16-21 oed**. Gall y cerdyn teithio arbed hyd at draean o gost tocyn i chi. Bydd angen i chi **wneud cais am y cerdyn yma.**

# 4. Cyllid i fyfyrwyr 19 oed neu’n hŷn

## 4.1. Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLlC (AB))

Mae **GDLlC (AB)** i fyfyrwyr 19 oed neu’n hŷn ar 1 Medi 2020. Gan mai grant yw hwn, nid oes rhaid ei ad-dalu.

**Er mwyn bod yn gymwys,** mae’n rhaid i chi ddilyn cwrs cymwys mewn coleg sy’n cymryd rhan yn y cynllun. Mae’n rhaid i’ch cwrs gynnwys o leiaf 275 o oriau o addysg ac arwain at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol, megis TGAU, Safon UG/Uwch, BTEC, NVQ a GNVQ. Gall eich coleg neu’ch chweched dosbarth ddweud wrthych a yw’ch cwrs yn gymwys.

Fodd bynnag, os ydych wedi cael GDLlC (AB) o’r blaen am ddilyn cwrs ar yr un lefel neu’n uwch na’r cwrs rydych am ei ddilyn nawr, ni fyddwch yn gymwys i gael y grant y flwyddyn academaidd hon.

Mae gofynion hefyd o ran cenedligrwydd ond, os ydych yn ddinesydd y DU sy’n byw yng Nghymru, dylech fod yn gymwys. Gallai dinasyddion nad ydynt o’r DU fod yn gymwys hefyd. Dylech holi Cyllid Myfyrwyr Cymru, eich coleg neu’ch chweched dosbarth os nad ydych yn siŵr.

Er mwyn cael GDAB (AB), mae’n rhaid i incwm eich aelwyd fod yn £18,370 neu’n llai. Gallwch gael grant hyd at £1,500 ar gyfer cwrs amser llawn a £750 ar gyfer cwrs rhan-amser ond mae’r swm gwirioneddol yn dibynnu ar eich incwm chi neu’ch aelwyd.

Mae rhagor o wybodaeth am faint y gallwch ei gael ac a yw’n seiliedig ar eich incwm chi neu incwm eich aelwyd **ar gael yma.**

Gellir cysylltu â **Cyllid Myfyrwyr Cymru** i gael **gwybodaeth am GDLlC (AB)** drwy e-bost (**wglgfe@slc.co.uk**) a thros y ffôn o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9:00am a 5:30pm ar 0300 200 4050.

## 4.2. Tocynnau bws rhatach

Gallwch wneud cais am mytravelpass sy’n gwneud **tocynnau bws yn rhatach i bobl 16-21 oed**. Gall y cerdyn teithio arbed hyd at draean o gost tocyn i chi. Bydd angen i chi **wneud cais am y cerdyn yma.**

# 5. Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn

Mae **Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i golegau yng Nghymru,** felly gall helpu myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol. Darperir yr arian hwn drwy'r Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn. Mae rhai colegau'n eu galw'n Gronfeydd Cymorth i Fyfyrwyr neu'n Gronfeydd Caledi Myfyrwyr.

Mae'r arian yn cael ei roi i'r colegau ac mae rhwydd hynt iddynt osod eu rheolau eu hunain ar yr amod eu bod yn dilyn rheolau Llywodraeth Cymru. Fel arfer, bydd colegau'n helpu myfyrwyr drwy gynnig taliadau brys i fyfyrwyr sydd mewn argyfwng neu os ydynt yn ystyried rhoi gorau i'r cwrs oherwydd problemau ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru yn hoffi i golegau roi blaenoriaeth i bobl mewn grwpiau penodol. Yn y gorffennol, mae'r grwpiau hyn wedi cynnwys myfyrwyr sydd â phlant, yn enwedig rhieni sengl; myfyrwyr sy'n byw mewn ardaloedd tlotach; y rhai sydd wedi gadael gofal a myfyrwyr ar incwm isel.

Gall colegau gynnig grantiau (nid oes angen eu had-dalu) neu fenthyciadau (mae angen eu had-dalu). Mae cymorth ar gael i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser. Gall yr arian helpu gyda phethau fel cost gofal plant, trafnidiaeth a chyfarpar cwrs hanfodol.

# 6. Ymddiriedolaeth Thomas Wall

Mae **Ymddiriedolaeth Thomas Wall** yn cynnig grantiau i gefnogi pobl sy'n wynebu heriau ariannol a heriau eraill. **Gall unigolion wneud cais am grantiau** hyd at £1,500 tuag at ffioedd cwrs a/neu gostau sy'n gysylltiedig ag astudio, megis gofal plant, teithio a deunyddiau astudio.

Mae nifer o ofynion er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun sy'n wahanol i fathau eraill o gyllid myfyrwyr. Dyma'r prif ofynion ac mae rhagor o fanylion **ar gael yma**.

- 18 oed neu'n hŷn;
- Wynebu heriau ariannol a heriau eraill, e.e. anabledd, trawma mawr neu ddigwyddiad bywyd, problemau iechyd meddwl, cyfrifoldebau gofalwr, gadael gofal, wedi ymddieithrio oddi wrth y teulu, dysgwyr Saesneg, cyfrifoldebau gofal plant;
- Yn ddi-waith am o leiaf 6 mis yn ystod y 2 flynedd diwethaf;
- Yr hawl i weithio ac astudio yn y DU ac wedi byw yn y DU ers o leiaf 3 blynedd;
- O aelwyd incwm isel.

Gallwch **gysylltu ag Ymddiriedolaeth Thomas Wall yma.**

# 7. Cysylltiadau ac adnoddau

Gall **Gyrfa Cymru** roi rhagor o wybodaeth i chi am gyllid i fyfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu ac anableddau.

Mae **Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr** yn cynnig gwybodaeth am arian a chyllid.

## 7.1. Manylion cyswllt y colegau

Dyma'r manylion cyswllt a oedd ar wefannau'r colegau unigol ym mis Awst 2020.

**Coleg Gwent**

- Rhif ffôn: 01495 333 777
- **Ffurflen gysylltu**

**Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant**

- Rhif ffôn: 0292 049 8555
- **Ffurflen gysylltu**
- E-bost: **ymholiadau@colegdewisant.ac.uk**

**Coleg Caerdydd a'r Fro**

- Rhif ffôn: 0292 025 0250
- e-bost: **info@cavc.ac.uk**

**Coleg y Cymoedd**

- **Campws Aberdâr,** rhif ffôn: 0168 588 7500
- **Campws Nantgarw,** rhif ffôn: 0144 366 2800
- **Campws y Rhondda,** rhif ffôn: 0144 366 3202
- **Campws Ystrad Mynach,** rhif ffôn: 0144 381 3888
- E-bost: **enquiries@cymoedd.ac.uk**

**Coleg Merthyr Tudful**

- Rhif ffôn: 0168 572 6000
- **Ffurflen gysylltu**

**Coleg Penybont**

- Rhif ffôn: 0165 630 2302
- **Ffurflen gysylltu**

### Grŵp NPTC

- **Coleg Castell-nedd,** rhif ffôn: 0163 964 8000
- **Coleg Afan,** rhif ffôn: 0163 964 8200
- **Coleg Bannau Brycheiniog,** rhif ffôn: 0168 641 4400
- **Coleg y Drenewydd,** rhif ffôn: 0168 661 4200
- **Coleg Pontardawe,** rhif ffôn: 0163 964 8100
- **Canolfan Adeiladu Abertawe,** rhif ffôn: 0163 964 8120
- **Academi Chwaraeon Llandarcy,** rhif ffôn: 0163 964 8720
- **Canolfan Adeiladu Maesteg,** rhif ffôn: 0163 964 8000
- **Campws Llandrindod,** rhif ffôn: 0168 661 4300
- **Ffurflen gysylltu**

### Coleg Gŵyr

- **Campws Tŷ Coch,** rhif ffôn: 0179 228 4000
- **Campws Gorseinon,** rhif ffôn: 0179 289 0700
- **Campws Llwyn y Bryn,** rhif ffôn: 0179 228 4021
- **Campws Llys Jiwbilî,** rhif ffôn: 0179 228 4400
- **Campws Ffordd y Brenin,** rhif ffôn: 0179 228 4450
- E-bost: **enquiries@gowercollegeswansea.ac.uk**

### Coleg Sir Gâr

- Rhif ffôn: 0155 470 1643
- **Ffurflen gysylltu**

### Coleg Sir Benfro

- Rhif ffôn: 0143 775 3000
- Ffurflen gysylltu
- **E-bost: admissions@pembrokeshire.ac.uk**

### Coleg Ceredigion

- **Campws Aberteifi,** rhif ffôn: 0123 961 2032
- **Campws Aberteifi**, ffurflen gysylltu
- **Campws Aberystwyth,** rhif ffôn: 0197 063 9700
- **Campws Aberystwyth**, ffurflen gysylltu

### Grŵp Menai Llandrillo

- **Campws Abergele,** rhif ffôn: 0174 582 8100
- **Campws Bangor,** rhif ffôn: 0124 837 0125
- **Campws Caernarfon,** rhif ffôn: 0128 667 3450
- **Campws Dolgellau,** rhif ffôn: 0134 142 2827
- **Campws Glynllifon,** rhif ffôn: 0128 683 0261
- **Campws Caergybi,** rhif ffôn: 0124 872 5515
- **Campws Llangefni,** rhif ffôn: 0124 838 3348
- **Campws Parc Menai,** rhif ffôn: 0124 867 4341
- **Campws Canolfan Penrallt,** rhif ffôn: 0124 872 5514
- **Campws Pwllheli,** rhif ffôn: 0175 870 1385
- **Campws Llandrillo-yn-Rhos,** rhif ffôn: 0149 254 6666
- **Campws y Rhyl,** rhif ffôn: 0174 535 4797
- **Ffurflen gysylltu**

### Coleg Cambria

- Rhif ffôn: 0300 303 0007
- Ffurflen gysylltu
- E-bost: **ymholiadau@cambria.ac.uk**

### Addysg Oedolion Cymru

- Rhif ffôn: 0330 058 0845
- Ffurflen gysylltu
- E-bost: **info@addysgoedolion.cymru**